# System gwella esgyrn uwchsain EXOGEN ar gyfer toriadau mewn esgyrn hir nad ydynt wedi uno neu sy'n cymryd mwy o amser nag arfer i wella

Ionawr 2013

Mae NICE wedi asesu system gwella esgyrn uwchsain EXOGEN er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn ai peidio.

Mae system gwella esgyrn uwchsain EXOGEN yn anfon uwchsain dwysedd isel sy'n pylsadu er mwyn helpu esgyrn i wella'n gyflymach ar ôl iddynt dorri. Credir bod EXOGEN yn hyrwyddo'r broses o wella drwy gynyddu faint o hen asgwrn a gaiff ei dynnu a faint o asgwrn newydd a gaiff ei gynhyrchu. Mae'r driniaeth yn cynnwys gosod stiliwr uwchsain ar y croen lle mae'r toriad am 20 munud bob dydd. Os oes cast dros y toriad, caiff twll ei dorri yn y cast er mwyn i'r stiliwr allu cyrraedd y croen. Gall y driniaeth bara ychydig wythnosau, neu sawl mis weithiau. Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio EXOGEN i drin toriadau mewn esgyrn hir (megis y tibia neu'r ffemwr, sef esgyrn hir yn y goes) nad ydynt wedi uno. Ystyr 'nad ydynt wedi uno' yw nad yw'r toriad wedi gwella ar ôl 9 mis.

Efallai y bydd timau gofal iechyd am ddefnyddio system gwella esgyrn uwchsain EXOGEN am fod y dystiolaeth yn dangos cyfraddau uchel o wella toriadau pan gaiff ei ddefnyddio a gall arbed arian, drwy osgoi llawdriniaeth, o gymharu â'r driniaeth bresennol ar gyfer toriadau nad ydynt wedi uno.

ISBN: 978-1-4731-7588-4



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.